

# Canlyn

*“Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a’ m canlyn i.” (adn. 34)*

## Beth am ddarlennu Marc 8:31–38 ac yna myfyrio

Rydyn ni am barhau i fyfyrio ar y ffaith mai un o roddion mwyaf gwerthfawr Iesu i ni yw ei esiampl. “Canlyn fi” oedd ei eiriau i sawl un tra bu ar y ddaear. Mae’r geiriau yma mor gyfarwydd i Gristnogion fel ein bod yn tueddu i beidio â sylwi ar yr honiad rhyfeddol sydd y tu cefn iddynt. Pwy ydy’r person yma sy’n ei osod ei hun fel canolwr ffawd dyn? Pwy ydy hwn sy’n gosod yr esiampl sy’n uchelgais i bob gŵr a gwraig? Neb llai na Mab Duw, Creawdwr pob dim (Col. 1:16).

Dywedodd y bardd Charles Lamb unwaith: “Pe bai Shakespeare yn cerdded i mewn i’r ystafell, mi fydden ni’n codi ar ein traed i’w gyfarch, ond pe bai’r Person Arall yna’n dod i’r ystafell, mi fydden ni i gyd yn syrthio i lawr ac yn cusanu godre’i wisg.” Dyna esiampl wych ydy Iesu. Ymostyngodd pobl o bob math i’w atyniad. Pysgotwyr gwydn, merched y strydoedd, milwyr Rhufeinig, arweinwyr crefyddol, gweision sifil – roedden nhw i gyd wedi’u cyfareddu.

Mae dwy ffordd ar agor o’n blaenau: ffordd yn cael ei harwain gan yr hunan, a’r ffordd a osodir gan Grist. Mae’n ein galw i ymwadu â ni ein hunain, a gwnawn hynny, nid yn gymaint drwy ein casáu ein hunain ond drwy fod â’r dewrder i ildio ein rheolaeth ar ein dyfodol ein hunain a’i ymddiried iddo ef fel Arglwydd. Dydy codi’r groes ddim yn golygu goddef mân drafferthion fel perthnasau blin neu dywydd gwael, ond yn hytrach dewis rhoi’r gorau, yn ddyddiol, i hunan-les er mwyn dilyn ei arweiniad ef mewn bywyd. Fyddwn ni ddim yn colli’r gwir hunan fel hyn; yn baradoesaidd, dim ond wrth ddod i berthynas â Iesu y cawn ni wybod pwy ydyn ni mewn gwirionedd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlennu:

Salm 36:1–12; Luc 14:25–35; Rhuf. 10:9–13

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae’r salmydd yn cyferbynnu’r rhai drygionus â’r rhai uniawn?
2. Beth ydy cost ei ganlyn, yn ôl Iesu?

## Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, mi wela i mai wrth d’adnabod di yn well y dof i f’adnabod fy hun yn well. Yn d’oleuni di y gwela i oleuni. Mae nghalon felly’n erfyn: ‘Arwain ymlaen, annwyl Waredwr. Fe’th ddilynaf ble bynnag yr ei.’ Amen.